



Eich cyf/Your ref P-06-1464
Ein cyf/Our ref SM/00708/25

Carolyn Thomas AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Deisebau

deisebau@senedd.cymru

05 Ionawr 2026

Annwyl Carolyn,

Diolch ichi am eich llythyr dyddiedig 18 Tachwedd ynghylch Deiseb P-06-1464, sy'n galw am alluogi teuluoedd o Gymru, sydd wedi colli babi cyn 24 wythnos o feichiogrwydd, i gael tystysgrif colli babi.

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i sicrhau bod pob teulu yn cael cymorth priodol a thosturiol o dan yr amgylchiadau hyn, ac rydym yn deall pa mor bwysig ydyw i rieni bod eu colled yn cael ei chydabod yn ffurfiol.

Fel y gwyddoch, rwyf wedi dyroddi Cyfarwyddyd Gweinidogol i Awdurdod Gwasanaethau Busnes y GIG i weithredu'r cynllun ar gyfer Cymru. Mae gwaith darganfod yn mynd rhagddo, sy'n cynnwys asesu amserlenni gweithredu, costau, a'r gofynion technegol i ddarparu gwasanaeth cwbl ddwyieithog – o'r cam gwneud cais am dystysgrif, hyd at gynhyrchu tystysgrif ddwyieithog – sy'n cydymffurfio â safonau'r Gymraeg.

Yn anffodus, mae hyn yn cymryd mwy o amser nag yr oeddem yn ei ddisgwyl, ac mae Awdurdod Gwasanaethau Busnes y GIG wedi dweud wrthym nad yw'r system bresennol wedi'i datblygu i ddarparu gwasanaeth dwyieithog, a bod angen datblygiad newydd. Rhaid i hyn gydymffurfio â Safonau Digidol y Llywodraeth, ac felly byddwn yn dechrau ar gyfnod o ymchwil defnyddwyr (un o ofynion y safonau) ym mis Ionawr 2026. Mae fy swyddogion yn gweithio ar y cyd â'r Awdurdod yn ystod y cyfnod darganfod, gan gysylltu â rhieni sy'n dymuno cymryd rhan yn y cam ymchwil defnyddwyr, gyda chymorth cyfieithu. Rydym yn disgwyl i adroddiad terfynol ein cyrraedd yn yr wythnos sy'n dechrau ar 2 Mawrth, a fydd yn manylu ar yr amserlen a'r costau datblygu.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN


Gohebiaeth.Sarah.Murphy@llyw.cymru
Correspondence.Sarah.Murphy@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Cyn gynted ag y bydd gennyf y manylion gan yr Awdurdod, byddaf yn rhoi gwybod i'r Pwyllgor.

Yn gywir,

A handwritten signature in black ink, reading 'S. Murphy'. The signature is written in a cursive, flowing style. The 'S' is large and loops around. The 'M' and 'P' are also prominent, with the 'P' having a long, sweeping tail that loops under the 'y'.

Sarah Murphy AS/MS

Y Gweinidog Iechyd Meddwl a Llesiant
Minister for Mental Health and Wellbeing